Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymuned Cylch y Garn
# Llanrhuddlad
# Caergybi
# Ynys Mon
# LL65 4HT

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2011**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith
CYRRAEDD Y NOD
THE CORPORATE STANDARD
Health at Work

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD
GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Saif Ysgol Cylch y Garn ar gyrion pentref Llanrhuddlad yng ngogledd Ynys Môn. Mae'n cynnwys neuadd gymunedol a ddefnyddir yn helaeth gan gymdeithasau'r ardal tu allan i oriau ysgol. Mae'n ysgol gynradd ddwyieithog sy'n gwasanaethu'n bennaf dri phentref cyfagos sef Llanrhuddlad, Rhydwyn a Llanfairyngornwy.

Mae disgyblion yn dechrau'n llawn amser ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Ar hyn o bryd, mae yn yr ysgol 28 o ddisgyblion 4-11 oed llawn amser a phedwar o blant meithrin am bum bore'r wythnos. Bu gostyngiad sylweddol yn niferoedd disgyblion yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Addysgir y disgyblion gan ddwy athrawes llawn amser, un rhan amser, yn cael eu cefnogi gan dri o gymorthyddion rhan amser.

Disgrifir yr ardal fel un nad yw yn ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Mae gan 7% o'r disgyblion yr hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim sydd yn sylweddol is na'r ganran sirol a chenedlaethol. Bu gostyngiad cyson a sylweddol yn y ganran sy'n hawlio cinio am ddim yn ystod y tair blynedd ddiwethaf.

Cymraeg yw prif iaith y cartref i 57% o'r disgyblion ond bernir bellach bod 71% ohonynt yn siarad y Gymraeg i safon iaith gyntaf. Addysgir Rhaglenni Astudio Cymraeg Iaith Gyntaf. Nid oes disgyblion o gefndiroedd ethnig gwahanol yn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol ddisgyblion o'r ystod gallu llawn ac mae eu cyrhaeddiad yn amrywio'n fawr pan ddechreuant yn yr ysgol. Mae 30% o ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig, y'n uwch na'r ganran sirol a chenedlaethol. Nid oes datganiad o anghenion addysgol arbennig ar un disgybl.

Bu'r pennaeth yn ei swydd ers Tachwedd 1999. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mis Ebrill 2005.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymuned Cylch Y Garn yw £4,400 sy'n cymharu gydag uchafswm o £15,158 ac isafswm o £2,685 ar gyfer ysgolion cynradd yn Ynys Môn. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl nawfed uchaf o'r 52 ysgol gynradd yn Ynys Môn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae disgyblion yn gyffredinol yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu;
- mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn yn eu defnydd o'r Gymraeg;
- mae agwedd disgyblion tuag at ddysgu yn gadarnhaol;
- mae'r athrawon yn darparu ystod o brofiadau dysgu sydd, ar y cyfan, yn ymateb i anghenion y rhan fwyaf o'r disgyblion; ac
- mae perthynas dda rhwng yr athrawon a'r disgyblion.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r ysgol wedi ymateb yn gadarnhaol i argymhellion yr arolygiad blaenorol;
- mae'r corff llywodraethol yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn effeithiol fel cyfaill beirniadol;
- mae'r broses hunan arfarnu wedi adnabod y meysydd priodol i'w datblygu; ac
- mae'r ysgol wedi dechrau mynd i'r afael â blaenoriaethau pwysig megis asesu ar gyfer dysgu a datblygu cymunedau dysgu.

## Argymhellion

I wella, mae angen i'r ysgol:

A1 godi safonau'r disgyblion uwch eu gallu;

A2 gweithredu gofynion y Cyfnod Sylfaen yn llawn;

A3 parhau i ddatblygu asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol; a

A4 datblygu disgyblion i fod yn fwy annibynnol yn eu dysgu ac i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn paratoi cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r materion uchod o fewn 45 diwrnod. Oherwydd bod rhai diffygion wedi ei nodi mewn meysydd pwysig, bydd yr awdurdod lleol yn monitro gweithrediad y cynllun ac yn adrodd i Estyn ar y cynnydd.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Dros eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu.

Mewn sesiynau dysgu ac yn eu llyfrau gwaith, mae safonau a chynnydd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gyson a phriodol i'w hoed a'u gallu, ac maent yn cyflawni eu tasgau'n llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cyson ac, ar y cyfan, yn cyrraedd safonau addas i'w gallu a'u cyrhaeddiad. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwyaf galluog o'r ysgol bob amser yn cyflawni ar lefel sy'n cyfateb i'w gallu.

Mae medrau cyfathrebu disgyblion yn dda. Ar lafar, gallant drin a thrafod amrywiol bynciau yn effeithiol yn Gymraeg neu yn Saesneg, gan ddefnyddio geirfa briodol. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu, ac yn gwneud cynnydd cyson. Mae'r goreuon ar frig yr ysgol yn chwilota'n effeithiol am wybodaeth o amrywiaeth ffynonellau ac, o ganlyniad, yn cyfoethogi eu dysgu. Mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu'n llwyddiannus yn estynedig ar draws amrywiaeth o feysydd dysgu.

Mae'r nifer o ddisgyblion sydd yn y garfan i'w hasesu ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn flynyddol yn amrywio, ac yn aml iawn yn isel. Golyga hyn bod canlyniadau un neu ddau ddisgybl ar adegau'n medru dylanwadu'n drwm ar berfformiad y garfan. O ganlyniad, dros gyfnod o dair blynedd, mae perfformiad yr ysgol mewn asesiadau athro ar ddiwedd y cyfnodau allweddol yn anghyson, ac nid yw'n bosibl dod i gasgliadau ystyrlon ynglŷn â nhw.

Yng nghyfnodau allweddol un a dau, wrth edrych ar berfformiad yr ysgol mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth dros gyfnod o dair blynedd yr oedd y gymhariaeth gyda chanlyniadau'r teulu o ysgolion, yr awdurdod lleol a Chymru yn amrywio'n fawr.

Yng nghyfnod allweddol dau, wrth gymharu gydag ysgolion tebyg o ran y canran sydd â hawl i ginio am ddim, bu'r ysgol yn ei thro'n cymharu'n ffafriol ac yn anffafriol. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol un, bu'r ysgol yn gyson ym mhlith y 50% isaf o ysgolion tebyg dros gyfnod o dair blynedd.

Nid oes patrwm cyson a chlir o wahaniaeth rhwng canlyniadau bechgyn a chanlyniadau merched, ac mae disgyblion sydd â'r hawl i ginio ysgol am ddim yn cyflawni ar yr un lefel â gweddill y disgyblion.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn yn eu defnydd o'r Gymraeg a llawer ohonynt yn defnyddio'r iaith lafar yn rhugl ac yn effeithiol ar bob math o achlysur, ffurfiol ac anffurfiol.

## Lles: Da

Mae'r disgyblion i gyd yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn troi'n hyderus at oedolion am gymorth a chyfarwyddyd. Maent yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol ac yn deall hanfodion bwyta'n iach ac yn deall eu bod yn cyfrannu at gorff a meddwl iach.

Mae disgyblion o bob oed cyn cyd-chwarae'n hapus amser egwyl a chinio. Mae'r disgyblion yn datblygu'n unigolion cyflawn a gweithgar sy'n barod eu cyfraniad i waith yr ysgol o fewn eu dosbarthiadau ac mewn gweithgareddau cymunedol.

Mae agwedd y disgyblion at ddysgu yn gadarnhaol ar y cyfan. Maent yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd yn eu gwersi a'u gweithgareddau. Fodd bynnag, nid yw llawer o'r disgyblion yn gwbl hyderus i weithio'n annibynnol a chymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain.

Roedd presenoldeb am y flwyddyn ysgol 2009-2010 yn 96% ar gyfer disgyblion o oed gorfodol sy'n gosod yr ysgol y 50% uchaf o ysgolion tebyg ar sail yr hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim. Ni fu unrhyw absenoldebau heb eu hawdurdodi yn y flwyddyn 2009-2010. Mae disgyblion yn brydlon yn yr ysgol ac i'r sesiynau dysgu.

Mae ymddygiad y disgyblion yn dda. Mae disgyblion yn gwrtais â'i gilydd a gydag oedolion ar bob achlysur. Mae mwyafrif y disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol megis clybiau chwaraeon wythnosol, a gweithgareddau'r Urdd.

Mae'r cyngor ysgol yn weithgar ac yn cyfrannu'n bositif at fywyd yr ysgol. Mae disgyblion yn meithrin dealltwriaeth dda o agweddau fel yr ysgol werdd, ac mae mentrau fel yr ymgyrch leihau ac ailgylchu gwastraff wedi codi eu hymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â'r gymuned leol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

## Profiadau dysgu: Digonol

Mae'r athrawon yn darparu ystod o brofiadau dysgu sydd ar y cyfan yn ymateb i anghenion y rhan fwyaf o'r disgyblion. Er hyn, nid yw'r ddarpariaeth bob amser yn herio disgyblion mwy galluog i symud ymlaen yn eu dysgu nac ychwaith yn rhoi digon o gyfleoedd iddynt fod yn annibynnol yn eu dysgu. Mae gormod o bwyslais ar gyfarwyddyd athrawes ac o ganlyniad mae tasgau yn tueddu o fod yn gyfyngedig.

Nid yw egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu gweithredu'n llawn. Er bod yr athrawon yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu at gyfeiriad y thema, ychydig o gyfleoedd sydd iddynt i wneud dewisiadau ynghylch eu dysgu.

Mae'r ysgol yn y broses o ddiwygio cynlluniau gwaith yr ysgol i gyd-fynd â gofynion y cwricwlwm ac ar gyfer datblygu gofynion y Cyfnod Sylfaen ymhellach. Mae'r ysgol yn y broses hefyd o sicrhau lle canolog i'r medrau yn eu cynlluniau gwaith diwygiedig, ond hyd yn hyn, nid yw'r gwaith wedi ei gwblhau. Fodd bynnag, mae'r

athrawon yn darparu gwersi diddorol sy'n talu sylw teilwng i'r medrau allweddol.  Llai amlwg yw'r sylw a roddir i ddatblygu medrau meddwl disgyblion.

Caiff y disgyblion llawer o gyfleoedd i ddysgu am eu bro trwy astudiaeth o arlunwyr lleol megis Syr Kyffin Williams, neu ddysgu am adar lleol traeth Cemlyn a chreaduriaid Porth Diana, neu drwy waith hanes megis thema Gwaith Brics Borthwen a Mynydd Parys.

Caiff y disgyblion gyfleoedd addas i ddysgu am ddiwylliannau eraill trwy gyfrwng themâu megis Diwali, ac wrth ymateb i ddigwyddiadau cyfredol megis bywyd yn Siapan yn dilyn daeargryn.

Mae'r ysgol yn pwysleisio cynaliadwyedd trwy gyfrwng sawl menter megis goleuadau mewnol yr ysgol yn diffodd eu hunain a'r cynllun ailgylchu papur a dillad trwy Menter Tyddyn Môn.

**Addysgu:  Da**

Mae safon yr addysgu yn briodol ar y cyfan gyda'r athrawon a chymorthyddion yn cefnogi'r dysgu mewn modd sensitif.  Defnyddia'r athrawon iaith lafar dda sy'n fodel ar gyfer datblygu iaith lafar y disgyblion.  Hola'r athrawon gwestiynau synhwyrol mewn modd cefnogol.  Maent yn defnyddio adnoddau dysgu yn effeithiol er mwyn cefnogi'r dysgu.  Mae perthynas ofalgar yn amlwg yn bodoli rhwng yr athrawon a'u disgyblion.

Ym mhob dosbarth, ychydig o sylw a roddwyd i osod meini prawf llwyddiant ar gyfer sesiynau dysgu, er bod nodau amlwg i'r gwersi.  Mae cynnydd pob disgybl yn cael ei fonitro drwy gynllun tracio manwl.  Gwneir asesiad sylfaen yn unol â'r drefn sirol a chedwir cofnodion manwl o ddatblygiad disgyblion y Cyfnod Sylfaen gan yr athrawes a'r cymhorthydd.  Mae cynnydd darllen disgyblion yn cael ei dracio'n fanwl trwy brofion, ac maent yn cael eu grwpio'n briodol ar gyfer gweithgareddau.

Caiff asesiadau diwedd cyfnod allweddol eu safoni'n fewnol.  Adnodd gwerthfawr i gynorthwyo'r gwaith hwn yw'r pedwar portffolio craidd.  Mae'r esiamplau wedi eu lefelu yn briodol i gyd-fynd a deilliannau'r Cyfnod Sylfaen a lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Mae llyfrau'r disgyblion yn cael eu marcio'n rheolaidd.  Mae tystiolaeth gynyddol o asesu ar gyfer dysgu ar waith yn llyfrau'r disgyblion - er enghraifft, drwy system dwy seren a dymuniad sy'n nodi'r hyn y maent wedi cyflawni'n dda a sut y gall y disgyblion symud ymlaen yn eu dysgu.  Hyd yn hyn, nid yw'r asesu ar gyfer dysgu'n cael ei weithredu'n ddigon eang nac wedi gwreiddio'n ddigon dwfn i gael effaith amlwg ar gynnydd disgyblion.  Prin iawn yw'r cyfleoedd ar gyfer hunan asesu ac asesu cyfoedion.

Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn cyrraedd y gofynion statudol.  Mae'r rhieni a gofalwyr yn teimlo'u bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plant.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r sylw manwl a roddir i agweddau iechyd a lles yn un o gryfderau'r ysgol. Cydweithia'r holl staff yn effeithiol i greu hinsawdd deuluol, gynhaliol. Mae gan yr ysgol bolisïau perthnasol sy'n ymwneud ag agweddau iechyd a diogelwch ond ni chafodd nifer ohonynt eu hadolygu'n ffurfiol ers rhai blynyddoedd gan y llywodraethwyr. Cynhelir asesiadau risg ac archwiliadau diogelwch yn rheolaidd gan weithredu ar yr argymhellion.

Mae gwasanaethau'r ysgol yn creu ymdeimlad priodol o ddefosiwn. Mae'r ysgol yn meithrin gwerthoedd cadarn sy'n hybu ymwybyddiaeth glir o dda a drwg. Dangosant empathi ag eraill drwy gasglu arian yn rheolaidd at achosion da. Caiff byw'n iach ei hybu'n effeithiol drwy'r cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol. Trwy berthynas agos â'r gymuned leol daw'r disgyblion i adnabod eu bro a'u diwylliant yn dda.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o wasanaethau arbenigol megis yr Awdurdod Iechyd, Adran Therapi Iaith a Lleferydd a'r Heddlu Cymunedol

Mae gan yr ysgol bolisi priodol a gweithdrefnau clir ar gyfer diogelu.

Mae tua 30% o ddisgyblion wedi eu nodi fel rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol. Mae'r disgyblion hyn yn cael eu cefnogi'n ofalgar gan gymorthyddion dysgu. Mae'r ysgol wedi buddsoddi'n effeithiol mewn staff ychwanegol tu hwnt i'r gyllideb sirol er mwy lleihau niferoedd yn nosbarth cyfnod allweddol dau, fel bod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael sylw pellach.

Mae aelod o staff a llywodraethwr dynodedig â chyfrifoldeb dros y maes anghenion dysgu ychwanegol. Cynhelir cyfarfodydd aml gyda rhieni i drafod datblygiad disgyblion a chedwir cofnodion manwl ohonynt. Mae'r sylwebaeth hon yn gofnod defnyddiol iawn ac yn arfer dda.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae gan bob disgybl fynediad cyfartal at gwricwlwm yr ysgol. Nid oes unrhyw wahaniaethu na stereoteipio. Mae bechgyn a merched yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a gysylltir yn draddodiadol â'r rhyw arall. Pe bai angen, mae rampiau'n caniatáu mynediad mewn cadair olwyn i wahanol rannau'r ysgol.

Mae awyrgylch gartrefol a chyfeillgar yr ysgol yn meithrin goddefgarwch. Daw'r disgyblion yn ymwybodol o draddodiadau ac arferion gwledydd eraill. Yn sgil cysylltiad â chartref plant amddifad yn Nepal anfonwyd nwyddau i'w cynorthwyo gyda'u gwaith. Siarada'r disgyblion gyda balchder am y prosiect hwn.

Mae gofod digonol ar gyfer nifer presennol y disgyblion ond nid yw'r cynllun yn hwylus yn ôl safonau modern. Oni ddefnyddir y drysau allanol, rhaid cerdded drwy'r naill ddosbarth i gyrraedd y llall.

Mae arddangosfeydd lliwgar yn cefnogi'r themâu cyfredol, yn cofnodi gweithgareddau ac ymweliadau ac yn rhoi bri ar waith a llwyddiannau disgyblion.

Mae ardaloedd allanol deniadol, yn cynnwys ardal cyfnod sylfaen, gardd a dau gae eang.

Caiff yr adeilad ei gynnal a chadw'n dda. Cedwir yr adeilad a'r safle yn arbennig o lân a thaclus. Mae ystod o adnoddau pwrpasol o ansawdd da i gyflwyno pob agwedd o'r cwricwlwm.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweiniad cadarn pennaeth yr ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd sydd yn cyfrannu at ethos cynhaliol ar gyfer y disgyblion a staff. Gwerthfawrogir bod cyfraniad pob aelod o staff yn werthfawr gan arwain at gydweithio effeithiol er budd yr ysgol. Mae'r swydd ddisgrifiadau manwl yn crynhoi dyletswyddau pob aelod o staff. Maent yn deall eu cyfrifoldebau ac yn gweithredu arnynt. Cynhelir cyfarfodydd staff wythnosol sy'n rhoi pwyslais priodol ar y blaenoriaethau ar gyfer gwella. Maent hefyd yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i staff gydweithio ar elfennau megis craffu ar waith disgyblion a'i safoni.

Mae'r ysgol yn dadansoddi data am ei pherfformiad yn drylwyr ac fe'i defnyddir i symud disgyblion yn eu blaen. Mae gwybodaeth am gynnydd disgyblion o brofion safonedig, yn enwedig mewn darllen a mathemateg, yn cefnogi asesiadau'r athrawon.

Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad sydd yn helpu staff i wella eu harfer. Mae'r trefniadau yn arwain at dargedau addas sy'n cwmpasu anghenion hyfforddi a datblygu unigolion a blaenoriaethau ysgol gyfan. Mae'r trefniadau yn ymestyn yn briodol i holl staff dysgu a chefnogi'r ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn effeithiol fel cyfaill beirniadol i'r ysgol. Mae yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn ymwybodol o'r materion yn codi o berfformiad yr ysgol mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg. Mae gan aelodau'r corff gyfrifoldebau fel unigolion ac mae trefniadau effeithiol iddynt arsylwi ar yr addysgu a'r dysgu. Mae'r corff yn cyfrannu at bennu blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol a gwneud penderfyniadau perthnasol ynglŷn â chyllid. Maent yn derbyn adroddiadau yn deillio o fonitro ac arfarnu safonau. Maent hefyd yn cael adroddiad ysgrifenedig ar ddeilliannau'r broses hunan arfarnu.

Rhoddir sylw da i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu gweithdrefnau i adolygu holl elfennau ei gwaith dros gylch amser. Mae'r hunan-arfarnu yn rhoi sylw priodol i ddadansoddiadau data a deilliannau gweithdrefnau monitro. Rhoddir ystyriaeth lawn i arfarniadau parhaus o les disgyblion. Rhoddir ystyriaeth hefyd i farn y disgyblion, rhieni a gwasanaeth addysg yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad hunanarfarnu bob amser yn rhoi barn yr ysgol ar feysydd i'w datblygu yn ddigon eglur.

Mae mwyafrif o flaenoriaethau gwella'r ysgol yn cysylltu'n glir â'r cynllun datblygu ysgol. Er enghraifft mae codi safonau darllen, a datblygu gweithdrefnau asesu ar gyfer dysgu wedi eu hadnabod fel dau o'r blaenoriaethau cyfredol. Mae strategaethau i gyfarfod â'r gwelliannau yn cael eu hadnabod. Mae'r rhain yn cynnwys ystod o weithdrefnau gan bennu cyfrifoldeb arweiniol aelodau staff dros eu cydlynu. Maent hefyd yn cynnwys dangosyddion llwyddiant, amserlenni penodol a chofnod o'r adnoddau a glustnodwyd. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth ymateb i argymhellion yr arolygiad diwethaf.

Mae trefniadau i'r athrawon arsylwi gwersi uniongyrchol wedi eu sefydlu yn ddiweddar ond nid yw deilliannau'r drefn wedi dylanwadu'n llawn ar brosesau hunanarfarnu'r ysgol hyd yma. Mae'r ysgol wedi dechrau manteisio o'i hymglymiad mewn cymuned ddysgu broffesiynol â dwy ysgol gynradd gyfagos i ddatblygu strategaethau i godi safonau darllen.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu ystod dda o bartneriaethau â rhieni, ysgolion eraill a grwpiau cymunedol lleol. Mae'r berthynas â'r rhieni yn un gefnogol, ac mae'r ysgol yn elwa o gyfraniadau gwerthfawr at weithgareddau megis celf, gwrando ar ddarllen a cherdd. Bu eu cyfraniad at greu ardal allanol i hybu gofynion y cyfnod sylfaen o fudd penodol. Mae'r ysgol yn elwa hefyd o gefnogaeth cymdeithas gyfeillion weithgar.

Mae cysylltiadau gwaith effeithiol yn bodoli â gwasanaethau cefnogol yr awdurdod lleol a'r gwasanaeth iechyd. Mae'r cydweithio agos â dwy ysgol gyfagos yn creu cyfleoedd i rannu arbenigedd a chydgynllunio. Er enghraifft fe elwodd disgyblion yr ysgol yn sylweddol o gynllun i gydariannu gwasanaeth arlunydd lleol i ddatblygu gwaith celf ac arddangosfeydd. Mae'r trefniadau a ddatblygwyd ar gyfer hwyluso trosglwyddo i'r ysgol uwchradd yn gryfder.

Mae'r ysgol yn elwa o'r neuadd ac adnoddau cymunedol eraill a leolwyd ar y safle ac mae'r defnydd rheolaidd o'r adnoddau yma gan gymdeithasau a mudiadau lleol yn cryfhau eu perthynas â'r ysgol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol ac fe wneir defnydd effeithiol o arbenigedd a phrofiad y staff. Gwneir defnydd effeithiol hefyd o'r amser a ddarparir ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu ac mae'r ysgol yn cyfarfod â gofynion lleihau baich athrawon. Gwneir defnydd da o gymorthyddion dysgu ar draws yr ysgol gan gynnwys yn y cyfnod sylfaen ac yn cynnal disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn gyffredinol mae gan yr ysgol gyflenwad da o adnoddau sy'n cael eu rheoli'n briodol.

Mae gweithdrefnau monitro'r gyllideb yn effeithiol ac yn gymorth i sicrhau fod yr holl adnoddau sydd ar gael i'r ysgol yn cael eu clustnodi'n gost-effeithiol.

Yn gyffredinol mae deilliannau ar gyfer disgyblion yn dda ac mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian o ran y defnydd a wneir o'r gyllideb a ddyrannwyd iddi.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Derbyniwyd 16 ymateb i holiaduron y disgyblion, sef holl ddisgyblion cyfnod allweddol dau'r ysgol. Yr oedd yr ymateb yn gadarnhaol iawn gyda'r holl ddisgyblion yn cytuno gyda'r datganiadau yn yr holiadur i gyd, ac eithrio un. Yr oedd dau o'r disgyblion (13%) yn credu nad oedd llawer o gyfleoedd iddynt gael ymarfer corff yn rheolaidd.

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd pedwar ymateb yn unig i holiadur y rhieni, ac nid yw'n bosibl dod i gasgliadau ystyrlon ar sail y dystiolaeth. Yr oedd yr ateb i bob cwestiwn yn gadarnhaol iawn gan bob rhiant a gyfrannodd ac eithrio un rhiant neu ofalwr nad oedd yn gwybod a oedd disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Terwyn Tomos | Arolygydd Cofnodol |
| Iwan Roberts | Arolygydd Tîm |
| John Roberts | Arolygydd Lleyg |
| Janet Wyn George | Arolygydd Cymheiriaid |
| Miss Jane Ann Roberts (Pennaeth) | Enwebai’r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |